

Gwybodaeth i Gleifion

Llid yr iris / Uvetitis

Uned Llygaid

Beth yw llid yr iris / wfea?

Llid ar ran lliw y llygaid (yr iris) a weithiau'r strwythurau sy'n gysylltiedig ag ef yw llid yr iris.

Beth sy'n achosi llid yr iris / wfea?

Nid ydym yn gwybod yn union beth sy'n achosi llid yr iris / wfea gyda tua 90% o bobl. Gall y gweddill ddioddef ag anhwylderau llid y corff eraill.

Fydd llid yr iris / wfea yn dod yn ôl?

Gall llid yr iris / wfea ddod yn ôl. Bydd amllder yn dibynnu ar y claf unigol o ychydig o fisoedd i ychydig o flynyddoedd. Gall ddigwydd yn y naill llygaid neu'r llall.

Pa driniaeth fydd ei hangen arnaf i?

Cewch ddiferion llygaid steroid a/neu eli i drin y llid. Cewch hefyd ddiferion i ehangu (ymagor) cannwyll y llygad. Mae hyn yn atal cannwyll y llygad rhag glynu i'r lens, ac mae'n caniatáu i'r llid orffwys, sy'n lleihau'r boen a'r anghysur. Weithiau, oherwydd bod cannwyll y llygad wedi'i hehangu, gall y llygad fod yn sensitif i olau llachar, ond gellir gwisgo sbectol haul i liniaru'r effaith. Bydd y gannwyll wedi'i hehangu hefyd yn effeithio rhywfaint ar y golwg.

Am ba mor hir fydd angen i mi barhau â'r driniaeth?

Bydd hyd ac amllder y driniaeth yn dibynnu ar pa mor ddifrifol yw'r llid. Caiff y driniaeth ei lleihau'n raddol dros gyfnod o amser yn ôl cyfarwyddyd y meddyg neu'r nyrs sy'n eich gweld yn y clinig llygaid. Ni ddylech stopio defnyddio eich diferion llygaid yn sydyn, oherwydd gall hyn achosi i'r llid ddod yn ôl.

Pa mor aml fydd angen i mi weld meddyg / nyrs?

Bydd hyn yn dibynnu ar pa mor ddifrifol yw'r llid, a sut mae'n ymateb i'r driniaeth.

Beth ddylwn i ei wneud os bydd llid yr iris / wfea yn dod yn ôl?

Os byddwch yn cael symptomau tebyg dylech gysylltu â'ch optegydd neu'r ysbyty cyn gynted â phosibl i wneud apwyntiad. Peidiwch â dechrau unrhyw driniaeth cyn cael apwyntiad yn y clinig llygaid.

Rhifau cyswllt:

Clinig Cyfeirio Brys

Dydd Llun i ddydd Gwener 9:00am - 5.00pm Ffôn:- 01633 238856

Nodiadau Personol:-

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**